Adroddiad ar

Ysgol Gymraeg Treganna

Heol y Feddygfa
Treganna
CF11 8DG

Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

# Ynglŷn ag Ysgol Gymraeg Treganna

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gymraeg Treganna |
| Awdurdod lleol | Cyngor Caerdydd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 659 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 479 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 96 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 21.7%) | 4.6% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 9.2%) | 2.1% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 50.1% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon | Ydy |

| | |
|---|---|
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 05/09/2022 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 17/11/2025 |

Daw'r data hwn o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Efallai byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae Ysgol Treganna yn gymuned ofalgar a chynhwysol lle mae disgyblion yn teimlo’n hapus ac yn ddiogel. Mae gweledigaeth glir ‘Tri Treganna’ yn sail gadarn i ethos yr ysgol ac yn dylanwadu’n gadarnhaol ar les a dysgu’r disgyblion. O ganlyniad i arweinyddiaeth effeithiol y pennaeth a chydweithio llwyddiannus y staff, mae disgyblion yn mwynhau profiadau dysgu cyfoethog sy’n meithrin eu hyder a’u medrau cymdeithasol ac emosiynol.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer lles yn arbennig o gryf. Mae darpariaethau Cwtsh a Nyth yn cynnig cymorth sensitif i ddisgyblion, ac mae’r ymagwedd ‘pum pwrpas lles’ yn cefnogi disgyblion a’u teuluoedd yn hynod o effeithiol. Mae’r cyfleoedd hyn yn meithrin hunanddisgyblaeth ac agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu ymhlith y rhan fwyaf o ddisgyblion.

Mae’r ysgol yn defnyddio ystod eang o wybodaeth i adnabod blaenoriaethau gwella ac mae staff a disgyblion yn cyfrannu’n ystyrlon at y gwaith hwn. Mae’r ffordd synhwyrol o ddosbarthu cyfrifoldebau yn hyrwyddo darpariaeth gadarn, a defnyddir grantiau yn briodol i sicrhau profiadau teg i bob disgybl.

Mae’r cwricwlwm yn eang ac yn cydblethu’n llwyddiannus â’r gymuned leol. Mae cyfleoedd cyfoethog i ddysgu am hunaniaeth Gymreig a’r byd ehangach, ac mae disgyblion yn dangos parch tuag at eraill a dealltwriaeth o werthoedd amrywiol. Ar draws yr ysgol, mae addysgu cadarn yn meithrin agweddau cadarnhaol. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau llythrennedd, rhifedd, digidol a chreadigol yn llwyddiannus o’u mannau cychwyn.

Mae staff yn hyrwyddo a meithrin balchder at y Gymraeg yn fwriadus, gan feithrin hyder y rhan fwyaf o ddisgyblion i ddefnyddio’r iaith mewn gwahanol gyd-destunau. Mae’r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau llafar mewn amgylcheddau dysgu ysgogol, ac erbyn brig yr ysgol, mae’r rhan fwyaf yn ysgrifennu’n gelfydd ar draws y cwricwlwm. Mae dealltwriaeth fathemategol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n gadarn, gyda chyfleoedd priodol i gymhwyso medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm.

Mae staff yn adnabod anghenion unigol disgyblion yn llwyddiannus ac yn ymateb yn brydlon; drwy hyn, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a’r rhai o aelwydydd incwm isel yn gwneud cynnydd da.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella

A1 Cysoni’r arferion addysgu mwyaf effeithiol ar draws yr ysgol

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae Ysgol Treganna yn gymuned ddysgu hapus a chynhwysol. Mae’r pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir ar gyfer yr ysgol ac mae ganddi ddisgwyliadau uchel ohoni hi ei hun, y staff a’r disgyblion. Mae’n cydweithio’n ddiwyd â’r staff, y llywodraethwyr a’r gymuned ehangach i ddarparu profiadau dysgu diddorol i ddisgyblion. Mae arweinwyr wedi cydweithio â holl randdeiliaid yr ysgol er mwyn llunio eu gweledigaeth yn seiliedig ar ‘Tri Treganna’. Maent yn arddel y weledigaeth yn llwyddiannus gan ddarparu lles a gofal bwriadus i holl aelodau’r gymuned ysgol.

### Ciplun: Cefnogi lles disgyblion

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi lles y disgyblion yn gryfder. Mae staff yn darparu gofal ac amrywiaeth o gyfleoedd gwerthfawr sy’n cefnogi’r disgyblion i fwynhau’r ysgol a gwneud cynnydd da yn eu medrau personol a chymdeithasol ynghyd â’u medrau dysgu. Mae darpariaethau cartrefol y Cwtsh a’r Nyth yn cynnig cefnogaeth ddyddiol i ddisgyblion gyda’u lles ac iechyd emosiynol. Mae arweinwyr wedi datblygu ymagwedd ‘pum pwrpas lles’ sydd yn cynnig cefnogaeth fuddiol i ddisgyblion wrth gyrraedd yr ysgol ac yn ystod amser cinio, yn ogystal â chefnogaeth hynod o werthfawr i rieni. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn meithrin hunanddisgyblaeth ac agweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu.

Mae arweinwyr yn ystyried amrediad eang o dystiolaeth i adnabod blaenoriaethau gwella’r ysgol. Mae’r rhain yn canolbwyntio ar ddatblygu’r ddarpariaeth i wella lles, profiadau dysgu a chynnydd ym medrau’r disgyblion. Mae staff a disgyblion yn cyfrannu’n fwriadus at agweddau o’r gweithdrefnau gwerthuso, ac mae gan y staff ddealltwriaeth gadarn o’u rolau wrth ddatblygu’r ddarpariaeth ymhellach.

Mae arweinwyr yn dosbarthu rolau a chyfrifoldebau yn synhwyrol i ddiwallu anghenion disgyblion ac ysgogi gwelliannau yn narpariaeth yr ysgol. Mae’r llywodraethwyr yn gweithredu’n hynod o effeithiol. Mae ganddynt wybodaeth gadarn am berfformiad ac effaith gweithdrefnau’r ysgol ar gynnydd a lles disgyblion. Maent yn rhannu cyfrifoldebau yn gydwybodol ac yn cynnal ymweliadau pwrpasol i siarad a staff a disgyblion am eu gwaith. Agwedd nodedig o waith y llywodraethwyr yw’r ffordd maent yn ymateb yn brydlon i feysydd sydd angen eu gwella. Er enghraifft, yn dilyn canfyddiadau gweithgaredd craffu ar waith, mae’r llywodraethwyr wedi cynnig addasiadau bwriadus i gynlluniau’r ysgol ar gyfer datblygu medrau ysgrifennu disgyblion. Mae hyn, yn ei dro, yn arwain at gynnydd cyflym ym medrau llythrennedd disgyblion.

Mae athrawon yn cydweithio’n fwriadus er mwyn darparu cwricwlwm eang a chytbwys i ddisgyblion sydd wedi’i wreiddio yn y gymuned leol. Darperir cyfleoedd buddiol i’r

disgyblion ddysgu am eu hardal, eu hunaniaeth Gymreig a'r byd ehangach. Mae hyn, yn ei dro, yn paratoi'r disgyblion i fod yn ddinasyddion cydwybodol a gwybodus. Mae staff yn cefnogi ymwybyddiaeth ysbrydol, foesol, gymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn ystyried safbwyntiau a gwerthoedd eraill ac yn datblygu dealltwriaeth gadarn o unigolion sy'n wahanol iddyn nhw.

Ar draws yr ysgol, mae'r addysgu yn gadarn. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol ac yn mwynhau'r dysgu. Mae'r athrawon yn rhannu amcanion y dysgu ac yn holi disgyblion yn bwrpasol. Mae hyn yn adeiladu ar eu dysgu blaenorol yn fuddiol ac yn ymestyn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o wahanol agweddau ymhellach. Yn yr arferion gorau, mae cyflymder bwriadus i'r sesiynau dysgu ac mae staff yn sicrhau lefel her addas sy'n cefnogi disgyblion i wneud cynnydd da. Mae athrawon yn cynllunio tasgau dysgu difyr a diddorol sy'n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion, gan ddarparu cyfleoedd pwrpasol i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd, digidol a chreadigol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gynnydd y rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y disgyblion sy'n dod o aelwydydd incwm isel a'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), wrth iddynt ddatblygu ystod o fedrau yn llwyddiannus.

Mae'r holl staff yn gosod pwyslais amlwg ar ddefnyddio a dathlu'r Gymraeg. Mae'r staff yn fodelau iaith effeithiol ac yn cymryd pob cyfle i annog y disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol wrth gydweithio ac wrth chwarae. Maent yn trefnu ystod eang o brofiadau cynhwysol, fel cyfleoedd i ddisgyblion ymuno â thimau chwaraeon, a chystadlu mewn Eisteddfodau. Mae'r cyfleoedd hyn yn cyfrannu at falchder y disgyblion tuag at y Gymraeg a'u agweddau cadarnhaol at ddysgu. Trwy hyn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau amrywiol, gan feithrin rhuglder sy'n eu galluogi i fynegi'u hunain yn glir ac yn fanwl.

Mae'r disgyblion ieuengaf yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu medrau llafar cynnar gan ddefnyddio'r ardaloedd dysgu ysgogol y tu fewn a thu allan i'r adeilad. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hynaf yn datblygu eu medrau ysgrifennu yn gelfydd wrth iddynt ysgrifennu'n estynedig i wahanol bwrpasau yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau mathemateg cadarn. Darperir profiadau a gweithgareddau dysgu diddorol sy'n galluogi disgyblion i ddechrau cymhwyso eu medrau rhif yn llwyddiannus ar draws y meysydd dysgu. Er enghraifft, maent yn creu graffiau, yn dadansoddi data ac yn datrys problemau yn briodol.

Un o gryfderau amlwg yr ysgol yw bod gan staff adnabyddiaeth dda iawn o anghenion disgyblion unigol. Mae'r pwyslais a roddir ar drafodaethau ymysg staff a gyda rhieni, ynghyd â chynnal asesiadau parhaus, yn cyfrannu'n llwyddiannus at adnabod darlun clir a chyfredol o anghenion pob disgybl. Mae hyn yn galluogi'r staff i ymateb yn amserol i'w hanghenion, gan ddarparu'r gefnogaeth bwrpasol ar eu cyfer.

Mae'r amryw bwyllgorau cynrychiolwyr disgyblion yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion rannu eu syniadau a dylanwadu ar agweddau pwysig o'r ddarpariaeth. O ganlyniad i'r profiadau hyn, mae medrau arwain y disgyblion yn datblygu'n dda ac maent yn hyderus bod staff yn gwrando ac yn gweithredu ar eu syniadau.

Mae arweinwyr yn creu a chynnal diwylliant cadarnhaol i hybu, datblygu a chefnogi dysgu proffesiynol staff.

**Ciplun: Cefnogi dysgu proffesiynol staff**

Mae arweinwyr wedi sefydlu diwylliant o gynllunio a darparu dysgu proffesiynol gwerthfawr sy'n cyd-fynd yn agos â'u blaenoriaethau datblygu ysgol. Maent yn gwneud defnydd hynod o effeithiol o'r medrau eang sydd gan staff a phartneriaid allanol i ddarparu cyfleoedd, hyfforddiant a chymorth cyson o ansawdd uchel. Mae cefnogaeth fuddiol i staff ymchwilio, a thrwy hyn, maent yn arloesi trwy gyflwyno addysgeg newydd sy'n cael effaith gadarnhaol ar gynnydd a lles disgyblion. Er enghraifft, drwy ymchwil a dysgu proffesiynol, mae staff wedi datblygu continwwm chwarae ysgol gyfan sy'n darparu cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion ddatblygu eu medrau creadigol, meddwl ac i fod yn ddysgwyr annibynnol.

Mae arweinwyr yn cyfathrebu'n effeithiol â rhieni ac yn rhannu gwybodaeth berthnasol am ddigwyddiadau'r ysgol, cynnwys y cwricwlwm a chynnydd disgyblion. Gwneir ymdrech bwriadus i gaffael barn rhieni am weithgareddau'r ysgol sy'n cyfrannu'n werthfawr at gynnal perthnasoedd gwaith cynhyrchiol. Er enghraifft, mae cyfarfodydd rheolaidd o'r fforwm Cwlwm Rhieni yn cryfhau'r berthynas rhwng y cartref ar ysgol ac yn hybu cydweithio er mwyn gwella'r ddarpariaeth i ddisgyblion.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 22/01/2026